YSGOL PENRHYN-COCH

Fel arfer mae amrywiol weithgareddau wedi cymryd lle.

Dydd Gŵyl Ddewi

Am newid eleni cafwyd cyngerdd Gŵyl Ddewi yn hytrach nag Eisteddfod. Cafwyd eitemau gan pob dosbarth. Perfformiodd pawb ar ei orau ac fe fwynhawyd y diwrnod.

Bu'r plant yn diddori'r Ymddeolwyr gydag eitemau amrywiol gan gael croeso cynnes fel arfer.

Eisteddfod yr Urdd

Yn rhagbrofion yr Urdd cafwyd cryn lwyddiant – aeth Tirion Lewis drwyddo yn yr unawd 10 i 12; Charlotte Griffiths drwyddo ar y llefaru 10 i 12 ynghyd a'r cerdd dant dan 12 oed a'r alaw werin dan 12 oed; Ellis Griffiths drwyddo ar y llefaru dan 8 oed.

Ymlaen wedyn i'r Eisteddfod Gylch lle daeth Tirion yn 1af ar yr unawd 10 i 12; Charlotte yn 1af yn yr alaw werin a'r dawnsio disgo, ac yn ail yn y cerdd dant dan 12 oed. Daeth Ellis hefyd yn 1af ar y llefaru dan 8 oed. Daeth ein parti dawnsio gwerin yn 2il dan 12 oed.

Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cystadlu.